
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	04.12.20
Pwnc / Subject:	Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Yn gyffredinol, mae Estyn o'r farn bod sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cynnig y potensial i wella cydlyniant mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, yn enwedig o ran y cysylltiad rhwng Addysg Uwch ac Addysg Bellach, ond bod angen mwy o eglurder o ran y meddwl ynghylch polisi yn ymwneud â'r ystod oedran addysg a hyfforddiant 16-19. Rydym wedi dynodi ychydig o feysydd penodol yn ein hymatebion isod y credwn y gellid eu cryfhau ymhellach mewn perthynas â'r darpariaethau cyffredinol yn y Bil.

O ran rôl Estyn, rydym yn croesawu cynigion y Bil Drafft y bydd Estyn yn cadw ein pwerau statudol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16, ac rydym eisoes yn gweithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch i ddatblygu dulliau ar y cyd o fynd i'r afael ag agweddau ar ansawdd ar draws meysydd Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Byddai'n well gennym pe bai'r cyllid ar gyfer ein gwaith yn dod i ni'n ganolog fel un dyraniad, yn hytrach na'n rhannol drwy'r Comisiwn, sy'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddem yn croesawu cael mecanwaith yn ei le hefyd i alluogi'r Comisiwn i'n hariannu ni'n uniongyrchol ar gyfer gwaith ychwanegol penodol yn y flwyddyn y gallai ei nodi mewn perthynas â'i gylch gwaith.

Credwn y byddai'r Bil yn gyfle hefyd i bennu pwerau statudol ar gyfer Estyn mewn perthynas ag arolygu dysgu proffesiynol cychwynnol a pharhaus ar gyfer y gweithlu addysg drydyddol mewn sectorau a arolygwn, naill ai yn amlwg yn y Mesur neu drwy reoliadau cysylltiedig. Byddai o gymorth hefyd i roi gwedd gliriach ar y rôl y byddai Estyn yn ei chwarae mewn perthynas â phrentisiaethau gradd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Adran A – Cwestiynau Cyffredinol

Cenhadaeth Ddinesig

Mae'r Bil Drafft (Adran 7(4)) yn diffinio "cenhadaeth ddinesig" fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu a all gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."

1. A ydych chi'n cytuno y bydd y dull gweithredu yn y Bil Drafft ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau?

✓ Ydyn

Mae Estyn yn cytuno y byddai'r dull gweithredu yn y Bil Drafft ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dylai'r pwyslais ar "genhadaeth ddinesig" eang helpu sicrhau bod camau a gymerir ar draws y sector ôl-16 yn canolbwyntio ar hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru yn hytrach na chanolbwyntio'n rhy gul ar ffactorau, buddiannau neu agendâu unigol. Er enghraifft, er ei bod yn bwysig i gamau gweithredu gefnogi buddiannau cyflogwyr drwy fynd i'r afael â materion cyflogadwyedd a medrau, mae'n hanfodol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ystyried yn llawn effaith eu gweithredoedd yn ehangach, gan gynnwys unrhyw effeithiau personol, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'n briodol bod y ddyletswydd i hyrwyddo'r genhadaeth ddinesig gan 'sefydliadau' yng Nghymru o fewn y sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach wedi'i chynnwys fel un o'r amcanion strategol penodol a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Fel y cydnabyddir yn Adran 8.44 y Memorandwm Esboniadol, mae'r cysyniad o genhadaeth ddinesig eisoes yn gyfarwydd i'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ac mae'n estyniad o'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015). Mae hyn yn golygu bod o leiaf rywfaint o'r seilwaith a'r fframweithiau angenrheidiol eisoes ar waith. Mae hefyd yn briodol i'r Comisiwn hyrwyddo mynd ar drywydd cenhadaeth ddinesig gan bersonau eraill a ariennir gan y Comisiwn, fel y datgenir yn 7(3) y ddeddfwriaeth.

Rydym yn croesawu'n arbennig ddisgwyliad y Comisiwn bod sefydliadau academiaidd yn ymestyn y tu hwnt i'w hystafelloedd dosbarth a'u campysau ac yn gweithio'n agos gyda'u cymunedau cynnal i hyrwyddo gwybodaeth, dysgu a medrau ar draws cymdeithas.

Anghenion y dysgwyr

Diogelu Dysgwyr

2. Bydd angen i'r Comisiwn bennu fformat a chynnwys Cynlluniau Diogelu Dysgwyr mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid (adran 114(6) a (7)), gan gynnwys sut i gyfathrebu'r cynlluniau i ddysgwyr a darpar ddysgwyr. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?

✓ **Ydyn**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig bod rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â fformat, cynnwys a chyfathrebu Cynlluniau Diogelu Dysgwyr. Mae'n bwysig, er gwaetha'r ddeddfwriaeth wahanol sy'n berthnasol i ddysgwyr ôl-16 mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, bod y dysgwyr hyn yn cael gwarchodaeth deg fel dysgwyr eraill sy'n rhan fwy uniongyrchol o gylich gwaith y Comisiwn. Wrth gyflawni'u hymgyngoriad, bydd angen i'r Comisiwn roi ystyriaeth briodol i'r ystod eang o rhanddeiliaid sy'n debygol o fod â buddiant mewn Cynlluniau

Diogelu Dysgwyr. Er enghraifft, awgrymwn fod y Comisiwn yn sicrhau nad yw buddiannau dysgwyr mewn darparwyr dysgu yn y gwaith ac oedolion sy'n ddysgwyr mewn darpariaeth yn y gymuned yn cael eu hanghofio mewn unrhyw ymgynghoriad.

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at ymgynghori ag awdurdodau lleol, bydd hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ystyried barnau dysgwyr dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a'u rhieni.

Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (Adran 117)

3. Nod y Comisiwn fydd sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, a bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu a rhannu eu barn. Ydych chi'n hyderus bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn debygol o gynnwys pob dysgwr, a chynrychioli'r sector Ôl-16 cyfan yn ddigonol?

✓ **Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Mae'r cynigion yn caniatáu ar gyfer cyfnod pontio i alluogi'r Comisiwn i ddatblygu'r cod. Mae hyn yn synhwyrol. Hefyd, mae'r cynigion yn cydnabod yn briodol y gallai fod angen i'r cod drefnu darpariaeth wahanol at ddibenion a sefydliadau gwahanol – ni fydd un ateb yn addas i bawb. Er mwyn sicrhau bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn gynhwysol, bydd angen i'r cod adnabod a rhoi ystyriaeth benodol i'r gwahaniaethau cyffredinol mewn aeddfedrwydd, annibyniaeth a medrau cyfathrebu dysgwyr cyn-18 ac ôl-18.

Nid yw'r holl ddysgwyr yn y sector ôl-16 yn mynychu lle rheolaidd ar gyfer addysg neu hyfforddiant. Efallai y bydd dysgwyr yn y gwaith ond yn mynychu canolfan ar gyfer hyfforddi yn achlysurol, neu efallai eu bod wedi'u cofrestru gydag is-gontractwr darparwr mwy. Bydd yn bwysig sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys. Anaml iawn y bydd ganddynt ffigurau 'cynrychioli grŵp' y gallant leisio'u barn drwyddynt, ac mae hon yn sefyllfa debyg i oedolion sy'n ddysgwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Ond i ddysgwyr mewn addysg bellach neu addysg uwch, mae cynrychiolaeth drwy undeb myfyrwyr a chynrychiolwyr cwrs yn arfer gyffredin.

Bydd angen i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai ag anawsterau cyfathrebu a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol gael ystyriaeth arbennig hefyd. Yn ogystal, bydd angen i'r Comisiwn roi ystyriaeth briodol i ddysgwyr sy'n astudio neu'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ystyried eu hanghenion nhw.

Mae'r cynigion yn pennu na fydd yn ofynnol i ddosbarthiadau chwech ysgolion mewn awdurdodau lleol gydymffurfio â'r cod, ac y byddai'n fuddiol i'r Comisiwn ymgynghori â nhw wrth ddatblygu'r cod er mwyn rhannu arfer dda. Mae'r sail resymegol ar gyfer peidio â chynnwys sylwadau dosbarthiadau chwech yn dweud bod buddiannau dysgwyr yn y chweched dosbarth yn cael eu cynrychioli ar lefel ysgol drwy'r llywodraethwyr cyswllt a'r cyngor ysgol, ond nid yw'n glir sut mae

buddiannau'r dysgwyr hyn yn cael eu hystyried ar lefel awdurdod lleol wrth gynllunio darpariaeth ar draws ei ddosbarthiadau chwech. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi 'y gofyniad i sefydlu cynghorau ysgol yw'r unig ofyniad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth.' (7.290 a 7.298), sy'n cynnwys dysgwyr y chweched dosbarth, nid yw'n egluro pam y bydd y ddeddfwriaeth yn hepgor y grŵp hwn o ddysgwyr rhag elwa o'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Yn gyffredinol, credwn y byddai'n fwy defnyddiol pe bai'r holl ddysgwyr ôl-16 yn cael eu cynnwys o dan y cod, gan gynnwys dosbarthiadau chwech ysgolion. Byddai hyn yn gyson ag argymhelliad Hazelkorn i gael dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2015), yn ogystal â chyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol (3.241 a 3.242) ynglŷn â hyrwyddo cydweithio a chryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr er mwyn gwella'r gefnogaeth i ddysgwyr.

O'r manylion a roddwyd yn y cynigion, nid oes modd dweud a fydd y cod yn ddigon cynhwysol i'r holl ddysgwyr. Wrth ddatblygu'r cod, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau ei fod yn ymgynghori ag ystod eang o ddysgwyr, ac yn ystyried natur amrywiol iawn dysgwyr yn y sectorau ôl-16.

Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

4. Mae'r Bil Drafft (Adran 93) yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau i ddysgwyr yng Nghymru. A oes ystyriaethau pellach y dylid eu hystyried i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor neu ganllawiau i gefnogi llwybrau dysgu, pontio a chynnydd er mwyn eu galluogi i gyfrannu a llwyddo mewn cymdeithas deg a chynhwysol ac economi ffyniannus?

✓ Oes

Mae Estyn o'r farn y dylai pob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant allu dangos sut byddant yn:

- uwchsgilio athrawon a hyfforddwyr i ddeall anghenion y farchnad lafur yn llwyr a darparu gwybodaeth ddiweddar am y farchnad lafur i ddysgwyr
- sicrhau bod pobl ifanc yn gwbl ymwybodol o'r ystod opsiynau ôl-16 ac ôl 18, gan gynnwys dysgu yn y gwaith, a rhinweddau cymharol yr opsiynau hyn
- datblygu partneriaethau effeithiol â chyflogwyr sy'n galluogi dysgwyr i fynd yn rheolaidd at gyflogwyr a'r byd gwaith

Credwn mai cyfrifoldeb y Comisiwn yw ymgorffori'r gofynion hyn yn y cytundebau deilliannau, a sicrhau bod cytundebau deilliannau gydag awdurdodau lleol ar gyfer eu darpariaeth chweched dosbarth yn ystyried y pwyntiau hyn. Hefyd, credwn y gallai'r Comisiwn ystyried y cyfleoedd i hyrwyddo dysgu proffesiynol ar draws y gweithlu addysg drydyddol a hyfforddiant mewn perthynas â deall y farchnad lafur.

Credwn y dylai fod mecanweithiau mewn unrhyw broses gomisiynu ar gyfer ariannu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau er mwyn sicrhau bod unrhyw ddarparwr gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn gallu:

- darparu ei wasanaeth yn ddiuedd a dangos sut bydd yn cynnal ac yn rheoli didueddrwydd ei wasanaethau
- dangos sut bydd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu medrau sy'n eu galluogi i ymchwilio i, a chynllunio, eu dilyniant i mewn i'r byd gwaith, gan ddeall a rhoi ystyriaeth lawn i ystod yr opsiynau sydd ar gael iddynt, a chanlyniadau eu dewisiadau ym mhob cam cynnydd
- dangos sut bydd yn datblygu gwybodaeth i alluogi dysgwyr i ddeall y llwybrau fydd yn eu harwain tuag at eu nodau tymor hwy
- dangos sut bydd yn bodloni anghenion dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud dewisiadau hollol wybodus ynglŷn â'u dilyniant drwy:
 - werthuso effaith gwasanaethau ar-lein i sefydlu pa mor effeithiol yw'r rhain o ran gwella dealltwriaeth dysgwyr o'r farchnad lafur a galluogi dysgwyr i ddatblygu cynlluniau gyrfa, ar sail dealltwriaeth glir o rinweddau cymharol ystod o lwybrau dilyniant
 - datblygu gwasanaethau i gefnogi'r dysgwyr hynny sy'n dymuno mynd i mewn i'r farchnad lafur ar unrhyw adeg o'u datblygiad
 - datblygu deunyddiau ar-lein sy'n ennyn diddordeb ac ar gael i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef o dlodi TG
 - darparu gwasanaeth gwahaniaethol sy'n cefnogi'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed ac mewn perygl o ymddieithrio
 - gweithio'n dda gyda'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant i amlygu'r dysgwyr hynny y mae angen arweiniad arnynt er mwyn darparu cymorth mewn modd amserol
 - sicrhau cydbwysedd rhwng cyflwyno gwasanaethau arwain wyneb yn wyneb ac ar-lein sy'n bodloni anghenion dysgwyr orau o ran datblygiad, cymorth ac arweiniad
 - darparu cymorth i ddysgwyr gael y cyfleoedd mwyaf defnyddiol a phriodol ar gyfer dysgu drwy brofiad o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a myfyrio ar y profiadau hynny er mwyn llywio'u penderfyniadau cynllunio yn well
 - datblygu dull cyson o gefnogi dysgwyr sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder

Credwn y dylai unrhyw ddarparwr gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ddangos sut byddant yn:

- cydbwyso'r angen i gynorthwyo'r Comisiwn gydag angen proffesiynol y gwasanaeth am ddiueddrwydd
- darparu data ar gyrchfannau dilyniant cynaledig cleientiaid er mwyn llywio cynlluniau'r Comisiwn
- darparu data rhagolygon ar ofynion dilyniant dysgwyr ar gyfer dysgu yn y gwaith, neu addysg barhaus
- cynghori'r Comisiwn ar y ddarpariaeth cefnogaeth gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chanllawiau
- cynghori'r Comisiwn ar gyfranogiad cyflogwyr mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth, cyngor a chanllawiau a'u heffaith

- integreiddio'r gwasanaethau y maent yn eu darparu er mwyn bodloni anghenion Cymru'n Gweithio yn y ffordd orau

Cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion

Bydd gan y Comisiwn rôl mewn perthynas ag ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion a gynhelir. Mae'r Bil Drafft yn caniatáu i'r Comisiwn gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion ad-drefnu, neu ei gynigion ei hun, mewn amgylchiadau cyfyngedig. Byddai'r amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath yn destun ymgynghori ac yn cael eu cynnwys yn y diwygiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

5. A ydych chi'n cytuno mai'r Cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion yw'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer amlinellu'r systemau a'r prosesau ac a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath?

✓ **Ydyn**

Mae Estyn yn cytuno bod diwygio'r Cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion yn ffordd addas o amlinellu'r systemau a'r prosesau i'r Comisiwn gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion ad-drefnu, neu ei gynigion ei hun, mewn amgylchiadau cyfyngedig. Drwy alluogi'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethol i gyflwyno cynigion ad-drefnu, gall y Comisiwn sicrhau cynigion sy'n cael eu llunio ar lefel leol. Teimlwn ei bod yn bwysig, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r Comisiwn yn cyflwyno'i gynigion ei hun, bod ymgynghori cyhoeddus drwy'r Cod yn rhan o'r broses, ynghyd â chyfranogiad cynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn lleol.

Credwn y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio yma at y graddau y bydd y Comisiwn yn gallu arfer awdurdod tebyg dros sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig darpariaeth chweched dosbarth gyfwerth (o ran ei bwerau gorfodi mewn achosion lle mae ansawdd yn methu bodloni'r safonau disgwylidig – fel ym mharagraff 3.135 ar dudalen 35 y memorandwm esboniadol).

Ar hyn o bryd, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys naw o ffactorau neu drothwyau i'w hystyried ar gyfer cynigion ad-drefnu'r chweched dosbarth. Mae'r rhain yn cyfeirio at Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009), ac yn benodol, y rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol, a oedd yn gyffredin yn 2013 pan basiwyd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2013), ond nid yw nifer/llawer ohonynt yn bodoli mwyach.

Cytunwn ei bod yn bwysig bod y trothwyau ar gyfer ysgogi ad-drefnu'r chweched dosbarth gan y Comisiwn ei hun yn destun ymgynghori, a'u diffinio'n glir ar ôl

hynny. Yn ddelfrydol, byddai'r rhain yn asio â'r trothwyau yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion a dylent ganolbwyntio ar y gwelliannau y byddai unrhyw gynigion yn eu sicrhau. Yn ychwanegol at y trothwyau presennol, gallai'r Comisiwn fod eisiau ystyried:

- p'un a fyddai'r cynigion yn gwella lles dysgwyr, aelodau staff neu'r gymuned ehangach yn sylweddol
- p'un a fyddai'r cynigion yn galluogi darpariaeth addysg drydyddol fwy cynaliadwy yn ariannol yn yr ardal, neu'n mynd i'r afael â galw cynyddol

Cryfhau cydweithredu

6. Mae Rhan 3 o'r Bil Drafft yn darparu swyddogaethau i gyllido chweched dosbarth ysgolion y brif ffrwd, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu oedolion a hefyd ymchwil ac arloesi sy'n gysylltiedig â darparwyr addysg. Yn eich barn chi, a oes unrhyw swyddogaethau cyllido neu swyddogaethau eraill ychwanegol a fyddai'n galluogi mwy o gydweithredu ar draws y sector addysg drydyddol?

✓ **Oes**

Mae geiriad y Bil Drafft mewn perthynas â chyllido darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) i annog mwy o gydweithredu yn ddefnyddiol, ac mae'n rhoi'r hyblygrwydd i'r Comisiwn i uchafu trefniadau o'r fath dros gyfnod. Er enghraifft, mae'r cyfeiriad yn adran 93 (1) (c) at gyllido 'cyfleusterau sydd wedi eu dylunio i greu cysylltiadau rhwng (ar y naill law) cyflogwyr ac (ar y llaw arall) personau sy'n darparu neu'n cael addysg neu hyfforddiant yng Nghymru' yn briodol o eang i alluogi'r Comisiwn i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn. Ceir y potensial i'r Comisiwn ddefnyddio cytundebau deilliannau i annog dulliau cydweithredol ymhellach mewn meysydd penodol os dymunir.

Mae rôl arfaethedig y Comisiwn wrth ddyrannu cyllid ymchwil ac arloesi i ystod o ddarparwyr ôl-16 cofrestredig ar draws y sector, yn ogytal ag addysg uwch a sefydliadau cofrestredig eraill, yn synhwyrol, er ein bod yn archwilio rhai o'r canlyniadau anfwriadol posibl yng nghwestiwn 13 isod. At hynny, mae gallu sefydliadau cofrestredig, o gael cydsyniad y Comisiwn, i basio'r cyfryw gyllid ymlaen at ddarparwyr/sefydliadau partner, yn cynnwys y potensial i hwyluso cydweithredu ar draws ffiniau sector. Mae'r gofyniad am gydsyniad y Comisiwn ar gyfer trefniadau o'r fath yn rhesymol, ar yr amod y gellir ei gael mewn modd addas o amserol ac effeithlon nad yw'n rhoi baich rhy sylweddol ar y sefydliadau sy'n cydweithredu.

Gall darparu cyllid tymor byr ar gyfer prosiectau penodol sy'n cynyddu cydweithredu arwain at raddau cydweithredu yn gostwng pan fydd y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod i ben. Byddai gwerthuso mwy effeithiol o effeithiau hirdymor prosiectau o'r fath, a mwy o eglurder mewn perthynas â'r disgwyliadau o ran hirhoedledd cydweithredu y tu hwnt i unrhyw gyfnod cyllido cychwynnol yn helpu

gwella hyn. Hefyd, byddai amodau sydd wedi'u pennu'n ofalus ar gyllid tymor hwy, ar sail cydweithredu, yn helpu lliniaru yn erbyn y cyfryw effeithiau hefyd.

Credwn fod yna swyddogaethau ehangach, ymhellach na chyllido yn unig, y gellir eu defnyddio i annog camau cadarnhaol fel cydweithredu. Er enghraifft, gall y trefniadau ar gyfer ansawdd ac atebolrwydd ysgogi cydweithredu hefyd. Gellir amlinellu prif fuddion cydweithredu fel:

- gwell effeithlonrwydd a, chan ddibynnu ar fethodoleg cyllido, mwy o gyllid
- gwelliannau sy'n cael eu cydnabod yn y deilliannau ar gyfer dysgwyr
- gwell effeithiolrwydd gan athrawon, darlithwyr, aseswyr, ymchwilwyr, arweinwyr ac aelodau staff eraill

Os yw deilliannau dysgwyr yn gwella oherwydd gwaith ar y cyd, yna mae hyn yn gweithio fel cymhellant cryf i barhau â gwaith felly. Yn ogystal, lle mae effeithiau cadarnhaol cydweithio yn cael eu cydnabod fel rhan o brosesau gwerthuso a gwella ansawdd, er enghraifft, o fewn prosesau gwerthuso a gwella mewnol, adroddiadau arolygu neu adolygiadau o ansawdd, mae hyn yn cymell ymdrechion o'r fath. Yn yr un modd, os gellir gwella effeithiolrwydd gwaith aelodau staff trwy bartneriaethau a datblygiad proffesiynol ar y cyd, yna gallai hyn fod yn ysgogwr hefyd.

Wedi iddo gael ei sefydlu, gall y Comisiwn weithio gydag Estyn a'r corff ansawdd dynodedig i gynhyrchu fframwaith ansawdd sy'n annog cydweithio lle mae hynny er budd pennaf dysgwyr. Gellid archwilio trefniadau ar gyfer atebolrwydd ar y cyd fel mecanwaith i hyrwyddo cydweithio effeithiol. Trwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae Estyn wedi cynnal arolygiadau ardal yn flaenorol a fu'n adolygu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed ar draws awdurdod lleol. Canolbwyntiodd yr arolygiadau hyn ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth mewn ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a'r awdurdod lleol. Byddai'r potensial i gynnal arolygiadau ardal gyda ffocws penodol er mwyn annog cydweithio.

Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Gymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai sefydlu'r Comisiwn (Adran 8) yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu lliniaru effeithiau negyddol?

Mae sefydlu'r Comisiwn yn cynnig cyfle i ddarparwyr ôl-16 gynllunio'n strategol a gweithio gyda'i gilydd, o fewn sectorau ac ar draws sectorau, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Amlygwyd yr angen i wneud hynny yn glir yn ein hadroddiad *Addysgu a dysgu*

cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach (Estyn, 2017, tud.6) a oedd yn cynnwys argymhelliad i 'Gryfhau cynlluniau strategol Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn enwedig yn y meysydd galwedigaethol y mae galw cynyddol am fedrau dwyieithog ynddynt gan gyflogwyr.'

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn briodol o gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â'r Gymraeg, a'i chynnwys o fewn y cysyniad o ymgysylltiad dinesig fel cam gweithredu at y diben o hyrwyddo neu 'wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015, tud.3). Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn datgan yn ddefnyddiol fod 'iaith Gymraeg sy'n ffynnu' yn rhan o un o'r saith nod llesiant hefyd a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r asesiad effaith yn nodi bod yr egwyddorion hyn yn sail i'r strategaeth Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017a) a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017c).

Gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau ystyried p'un a oes angen gwneud y Comisiwn yn ymgynghorai statudol pan fydd awdurdodau lleol yn datblygu'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

8. Eglurwch hefyd os ydych yn teimlo y gellid newid y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Bil Drafft ar gyfer sefydlu'r Comisiwn er mwyn cynyddu'r effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod y Comisiwn yn dod o fewn Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn un gadarnhaol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011). Rydym yn cytuno gyda'r sail resymegol yn y Memorandwm Esboniadol y byddai hyn yn sicrhau bod y Comisiwn yn ystyried y Gymraeg yn ei holl weithgareddau ac 'y gellir ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg'. Fodd bynnag, mae'r geiriad 'y gellir ei wneud yn ofynnol' yn ymhlygu mai posibilrwydd yw hyn yn hytrach na bwriad pendant. Byddai rhoi 'bydd' yn lle 'gall' yn osgoi unrhyw amwysedd posibl.

Mae'r dyletswyddau mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a amlinellwyd o dan Rhan 1 y Bil Drafft, adran 8 Pwynt (b) yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn 'gymryd pob cam *rhesymol* i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw *rhesymol*'.

Mae'r diffiniad o resymoldeb yn agored i'w ddehongli, hyd yn oed o fewn cyd-destun cyfreithiol. Fe wnaeth deddfwriaeth flaenorol yn ymwneud â'r Gymraeg, fel Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Prydain, 1993) sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac amododd y dylai rhai cyrff cyhoeddus, i'r graddau y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn *rhesymol ymarferol*, weithredu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y diffiniad o resymoldeb yn aml yn mynd yn bwynt dadleuol, ac un a oedd yn rhy aml yn arwain at ddarpariaeth annigonol a oedd yn methu sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg. Yn sgil Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd yn

dilyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd rhwymedigaethau cyfreithiol mwy pendant o lawer ar y cyrff a oedd dan eu rheolaeth gyda mecanweithiau cydymffurfio perthnasol.

Er mwyn osgoi amwysedd, byddai'n gliriach ac yn fwy strategol o ran ffocws i ddatgan bod dyletswydd gan y Comisiwn i sicrhau bod digon o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddileu unrhyw gyfeiriadau at 'rhesymol', sy'n agored i'w ddehongli gan unigolion neu sefydliadau. Ar drywydd tebyg, byddai'n gliriach i ddileu'r defnydd o'r geiriau 'annog' yn adran 8 (a) a (c) yn y Bil Drafft Bill a phennu dyletswydd statudol ar y Comisiwn i gyflawni'r nodau hyn.

9. Beth yw eich barn am y dyletswyddau a osodir ar y Comisiwn mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg?

Mae'r Memorandwm Esboniadol (3.314 – 3.317) yn dweud y bydd gan y Comisiwn rôl hollbwysig i wireddu nodau'r strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Mae'r sail resymegol hon yn glir a mwy neu lai yn gyson â nodau 4 a 5 Cymraeg 2050. Fodd bynnag, mae Nod 4 yn cyfeirio at y ffaith y dylai dysgwyr ddatblygu'u medrau Cymraeg 'ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2017a, tud.32) tra bod paragraff 3.317 yn cyfeirio at sicrhau bod 'pob siaradwr Cymraeg sy'n parhau mewn addysg drydyddol... yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg'. Mae'n hanfodol bod dysgwyr, ble bynnag y maent ar y continwmm iaith, yn cael cyfleoedd ystyrlon i adeiladu ar y medrau Cymraeg y caffaelwyd ganddynt yn flaenorol yn ystod addysg statudol.

Mae'n werth nodi hefyd fod amcanion penodol ar gyfer addysg ôl-orfodol yn y Rhaglen Waith Cymraeg 2050 (2017-21) (Llywodraeth Cymru, 2017b). Byddai modd cyflawni'r rhain o dan y Bil Drafft arfaethedig i sefydlu'r Comisiwn. Mae nifer o fentrau perthnasol defnyddiol eisoes yn mynd rhagddynt. Er enghraifft, yr ymgynghoriad diweddar gan Cymwysterau Cymru yn ymwneud ag argaeledd cymwysterau yn Gymraeg ac mae *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg* y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018) yn amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, hyder neu ruglder dysgwyr. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i gynyddu medrau dwyieithog y gweithlu ôl-16 yn sylweddol. Ar hyn o bryd, dim ond 8.9% o ymarferwyr dysgu yn y gwaith, ac 11.3% o athrawon addysg bellach sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2020). Byddai'n fuddiol gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i hyrwyddo datblygu medrau Cymraeg yn y gweithlu addysg drydyddol.

Gall y Comisiwn chwarae rhan hanfodol yn cydlynu ac yn datblygu'r mentrau hyn a mentrau strategol tebyg er mwyn sicrhau bod mwy o degwch yng nghynnig y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau bod digon o adnoddau Cymraeg ar gael i ddysgwyr, oherwydd yn rhy aml, mae hwn yn broblem yn y sector ôl-16 ac mae'n effeithio'n negyddol ar ganfyddiad dysgwyr o ddilysrwydd addysgol yr iaith.

Mae 3.322 yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi 'bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i allu dyrannu adnoddau ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg. Er enghraifft, rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddarparu cyllid yn uniongyrchol i'r Ganolfan Genedlaethol (ar gyfer Dysgu Gymraeg) a'r Coleg (Cymraeg Cenedlaethol) yn y tymor byr i'r tymor canolig yn dilyn sefydlu'r Comisiwn.' Credwn ei bod yn bwysig bod amcanion strategol yn cael eu cytuno a'u rhannu rhwng Gweinidogion a'r Comisiwn, a bod sianelau cyfathrebu clir er mwyn cyflawni'r amcanion a'r targedau a amlinellir o dan Cymraeg 2050. Er enghraifft, mae'r cynllun Cymraeg Gwaith/ Work Welsh yn rhan hanfodol o'r strategaeth i wella ac ehangu medrau Cymraeg y gweithlu mewn addysg ôl-orfodol, yn ogystal ag mewn sectorau eraill.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn gwneud sylwadau ar bwerau cyllido'r Comisiwn trwy roi enghreifftiau'n ymwneud â dyrannu cyllid i ddarparwyr i addysgu Cymraeg ac ariannu darparwyr ar gyfer cyrsiau caffael yr iaith Gymraeg (3.324 a 3.325). Mae hyn yn tanlinellu'r angen am eglurder pwrpas strategol. Mae'n bwysig gwneud o gorau o'r arbenigedd a'r profiad mewn cyrff cenedlaethol fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a sicrhau nad yw mecanweithiau cyllido gwahanol neu linellau atebolrwydd yn cael effaith negyddol, yn enwedig mewn tirwedd ôl-COVID lle gallai hawliadau fod yn cystadlu am gyllid cyfyngedig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn cynnwys gwybodaeth am hyd a lled yr addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a ddarperir ac i ba raddau yr addysgwyd Cymraeg i bobl dros yr oedran ysgol gorfodol mewn blwyddyn benodol, a chymharu'r darpariaeth â'r hyn a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol (3.326). Mae hwn yn gam cadarnhaol a gallai helpu ffurfio'r sylfaen ar gyfer cynlluniau ieithyddol strategol mewn addysg ôl-orfodol. Fodd bynnag, mae angen i unrhyw ganllawiau ar gyfer monitro darpariaeth a ddatblygir gan y Comisiwn fod yn ddiamwys, a dylai targedau ar gyfer cynlluniau ieithyddol strategol gael eu cytuno rhwng darparwyr a'r Comisiwn, a'u hadolygu'n flynyddol. Dylai targedau sicrhau bod darparwyr yn cadw at egwyddor y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag adweithio i alw honedig neu ganfyddedig am gyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Hefyd, dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys targedau ar gyfer sicrhau bod gan ddarparwyr/sefydliadau niferoedd digonol o staff ar draws meysydd dysgu, i gyflwyno'r cyfryw gyrsiau. Ar hyn o bryd, mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn teimlo rheidrwydd yn aml i gynnig darpariaeth alwedigaethol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddefnyddio a datblygu'u medrau Cymraeg oherwydd diffyg cyfleoedd galwedigaethol cyfrwng Cymraeg gwirioneddol neu ganfyddedig mewn colegau. Gallai adroddiadau monitro blynyddol amlinellu'n glir sut mae darparwyr addysg drydyddol yn cydweithredu i sicrhau cynnig darpariaeth deg ac ystyrlon i'r holl bobl ifanc sy'n parhau mewn addysgu ôl-16.

Mae'r angen am gynllunio ieithyddol pwrpasol o'r fath yn hanfodol. Yn adroddiadau arolygu Estyn ar ddarparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith, un argymhelliad cyffredin yn y blynyddoedd diwethaf fu gwella'r ffocws ar ddatblygu medrau iaith Gymraeg dysgwyr fel medr cyflogadwyedd ac i annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu'u medrau iaith yn y gweithle. Ar draws y sector ôl-16, nid

yw arweinwyr a rheolwyr wedi cysylltu'r buddion o ddefnyddio'r Gymraeg yn glir â chyfleoedd cyflogaeth, er bod galw am gymhwysedd yn y Gymraeg mewn nifer o ranbarthau daearyddol a meysydd dysgu. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y sectorau iechyd a gofal, yn enwedig yn y sector cartrefi gofal. Mae hefyd yn fedr cyflogaeth ddymunol iawn i ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol sy'n ymweld â chartrefi cwsmeriaid Cymraeg a dwyieithog i ymgymryd â gwaith (Estyn, 2019, tud.60). Mae'r canfyddiadau hyn yn pwysleisio'r angen i'r Comisiwn sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd darparwyr/sefydliadau a'u cynlluniau darpariaeth yn cynnwys y Gymraeg mewn modd strategol a gyda ffocws.

Cofrestru

10.A yw'r cynigion ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Chyfle (Adrannau 32-41) yn ddigonol i sicrhau bod gan y Comisiwn bwerau i ysgogi newid trawsffurfiol o ran ehangu mynediad a chyfle mewn addysg uwch?

✓ **Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Mae Estyn o'r farn fod y cynigion ar gyfer cynlluniau mynediad a chyfle yn cyflwyno ymagwedd fuddiol sy'n debygol o ddarparu strwythur a phroses i'r Comisiwn i gyfrannu at drawsffurfio mynediad i addysg uwch ar gyfer dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r cynigion yn gosod y cyfrifoldeb i fynd i'r afael ag effaith anfantais economaidd-gymdeithasol yn ganolog i gynllunio a chyflawni strategol ac nid ar ymylon gweithgarwch addysg uwch. Fodd bynnag, er mwyn bodloni'r nod o drawsffurfio cyfleoedd i'r dysgwyr hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ni ddylai prosesau monitro ganolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfio'n unig, ond yn hytrach dylent roi ffocws ar adolygu a rheoleiddio ansawdd ac effaith cynlluniau mynediad a chyfle.

Rydym yn cefnogi'r bwriad i gyflwyno cylch bywyd hwy ar gyfer cynlluniau mynediad a chyfle. Nid yw'r cylch blwyddyn presennol yn annog sefydliadu i fynd i'r afael â mater cydraddoldeb a thegwch ochr yn ochr â'u cynllunio strategol hirdymor. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cynlluniau yn aml yn arwain at 'brosiectau' tymor byr yn hytrach na gweld yr uchelgais hwn fel un sy'n ganolog i rôl sefydliadau addysg uwch i wella cyfiawnder cymdeithasol a symudedd cymdeithasol, drwy fynediad a chyfle at addysg uwch yng Nghymru.

Yn gyffredinol, rydym yn cytuno â'r egwyddor i waredu'r trefniadau blaenorol ar gyfer cynllunio ariannol lle mae'n ofynnol i sefydliadau amcangyfrif costau ehangu mynediad mewn perthynas â chyfanswm incwm ffioedd. Bydd hyn yn cefnogi'r bwriad i sicrhau bod ehangu mynediad yn dod yn rhan annatod o genhadaeth ddinesig darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Yn ogystal, mae dileu statws 'tâl

am dâl' cyllid ar gyfer gweithgarwch ehangu mynediad yn fwy tebygol o sicrhau bod y gwaith hwn wedi'i ymgorffori yng nghenhadaeth a diben moesol darparwyr addysg uwch a pheidio â'i weld fel mentrau neu brosiectau tymor byr y gellid eu cyflwyno yn ymyl darpariaeth graidd. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod cyllid digonol i ddarparu digon o gapasiti i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a dysgwyr anhraddodiadol i fod yn llwyddiannus mewn addysg uwch.

Rydym yn cefnogi'r disgwyliad y bydd disgwyl i ddarparwyr addysg bellach gymryd camau priodol i ehangu mynediad a chyfle mewn perthynas â'u darpariaeth. Yn ogystal, rydym yn cytuno â'r cynnig i'r Comisiwn fonitro ac asesu'r camau a gymerir gan y sector addysg drydyddol gyfan i ehangu mynediad a chyfle.

Yn gyffredinol, rydym yn cytuno bod y pedwar maes ffocws yn darparu trosolwg eang o'r hyn y dylid ei gynnwys mewn cynlluniau mynediad a chyfle. Fodd bynnag, bydd manylion a disgwyliadau yr hyn y dylid ei gynnwys ym mhob maes ffocws yn hanfodol i lwyddiant ac effaith y cynlluniau. Bydd yn bwysig i gynlluniau mynediad a chyfle bennu camau clir, y gellir eu mesur, i gyflawni'r uchelgeisiau hyn. Dylai'r camau hyn fod yn rhan o ymagwedd strategol ystyrion sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn yng ngwaith bob dydd y sefydliad yn hytrach na phrosiectau sy'n digwydd y tu allan i ddarpariaeth cyrsiau a rhaglenni. Canfuom, er enghraifft, mewn addysg gychwynnol i athrawon, nad yw mentrau ehangu mynediad blaenorol wedi bod yn llwyddiannus o ran mynd i'r afael â'r heriau.

Rydym yn croesawu'r cynnig i alluogi cynlluniau mynediad a chyfle i fynd i'r afael â phynciau neu gyrsiau penodol lle mae angen gwella mynediad o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r rheoliadau yn cyfeirio at sut gallai darparwyr addysg uwch weithio gyda chyrrff proffesiynol, er enghraifft yn y gyfraith, meddygaeth neu addysg athrawon a chyrrff cenedlaethol, fel Gyrfa Cymru, i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i mewn i'r proffesiynau hyn a phroffesiynau eraill. Yn ogystal, byddai'n fuddiol pe bai darpariaethau yn y Bil Drafft yn mynnu bod darparwyr/sefydliadau yn cynnwys camau yn eu cynlluniau ar gyfer sut fyddant yn gweithio'n strategol gyda darparwyr eraill i ddarparu llwybrau dilyniant cydlynus ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn meysydd pwnc neu gyrsiau penodol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried profiadau anachrededig neu ddatblygu ymagwedd ar y cyd yn ymwneud â defnyddio cywerthedd ar gyfer dysgwyr anhraddodiadol i ddod i mewn i addysg uwch.

Nid yw'n glir p'un a fydd disgwyl i gynlluniau mynediad a chyfle gynnwys cyfeiriadau at ehangu mynediad trwy ddarparu rhaglenni rhan-amser a hyblyg, gan gynnwys dysgu o bell. Yn aml, mae dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn wynebu heriau ychwanegol i ymdopi â nhw, fel y rheiny sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau teuluol neu gyllid, a allai effeithio'n negyddol ar eu llwyddiant mewn addysg drydyddol. Oni bai bod cynlluniau'n ddigon eang a strategol i gynnwys cynllunio rhaglenni ar gyfer mynediad a chyfle, yna nid yw'r cynigion presennol yn mynd yn ddigon pell i ysgogi newid trawsffurfiol yn y maes hwn.

Gallai arolygiadau thematig Estyn fod yn fecanwaith defnyddiol i helpu'r Comisiwn i fonitro effeithiolrwydd camau a gymerir i hyrwyddo dilyniant mewn perthynas â gwahanol grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

11. A fydd y pwerau arfaethedig i'r Comisiwn ar gyfer monitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cofrestru (Adrannau 22-26) yn rhoi digon o hyblygrwydd iddo reoleiddio'n gymesur ac yn briodol?

✓ **Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Yn gyffredinol, mae Estyn yn cefnogi'r cynigion yn y Bil Drafft i'r Comisiwn gael pwerau i fonitro a chefnogi cydymffurfiaeth sefydliadau cofrestredig gydag amodau cofrestru. Yn fras, mae'r rhain yn rhoi hyblygrwydd ar gyfer monitro cymesur a phriodol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil Drafft a'r Memorandwm Esboniadol yn pennu'n ddigon eglur y gydberthynas rhwng monitro cydymffurfiaeth ac adolygu ansawdd darpariaeth na rôl rheoleiddwyr presennol a'r arolygiaeth wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn ar ran y Comisiwn. Byddai'r cynnig yn ymwneud â phwerau'r Comisiwn i fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r telerau cofrestru yn cael eu cryfhau ymhellach pe gellid rhoi gwedd gliriach ar y pwyntiau hyn.

Mae'r pwerau arfaethedig i'r Comisiwn i fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru yn addas ac yn ddigon hyblyg, ar yr amod bod eglurder a thryloywder o ran y modd yr eir ati i fonitro ansawdd a chydymffurfiaeth, a chan bwyl. Er enghraifft, efallai y byddai'n well ymgymryd â'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau ac arolygu ansawdd fel swyddogaethau ar wahân ond gydag eglurder ynglŷn â chydberthynas y prosesau a'r deiliannau.

Rydym yn cytuno'n fras gyda'r cynnig i'r Comisiwn drefnu i PAEM neu gorff ansawdd dynodedig fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru (adran 24). Mae hyn yn briodol ac yn galluogi'r Comisiwn i ddefnyddio arbenigedd a dealltwriaeth bresennol o addysg drydyddol. Byddai hyn yn cyfrannu at sicrhau parhad a chysondeb ar adeg pan fo darparwyr yn wynebu newidiadau i drefniadau llywodraethu a chyllido. Fodd bynnag, bydd yn bwysig ystyried sut fydd y deiliant arolygu yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â ph'un a yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliadau. Dylid cadarnhau eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a diben monitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau cyn i'r Comisiwn ymgymryd â'i bwerau yn y maes hwn o'i waith.

Rydym yn cytuno bod rhaid i ymyrraeth reoleiddiol yn achos diffyg cydymffurfio fod yn amserol. Er bod cymorth i'r darparwyr hynny a allai fod yn torri amodau rheoleiddio yn bwysig, mae'n llawn mor bwysig nad effeithir yn negyddol ar brofiad y dysgwyr gan gamau estynedig i ddarparu cymorth. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Comisiwn fod yn glir ynglŷn â rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth, gwerthuso ansawdd a darparu cymorth. Rhaid cael eglurder llwyr yn y disgwyliadau hyn fel nad yw darpariaeth wan neu ddiffyg cydymffurfio yn disgyn rhwng systemau, prosesau a chyfrifoldebau nad ydynt wedi'u hegluro'n gwbl glir. Rydym yn croesawu

ychwanegu ychwanegiadau newydd at y fframwaith rheoleiddio yn ymwneud â gwarchod dysgwyr ac ymgysylltiad dysgwyr ar gyfer addysg uwch, ond byddem yn dymuno hefyd cyfeirio at y pwyntiau yng nghwestiynau 2 a 3 o ran eu cymhwyso i ddysgwyr yn y chweched dosbarth.

Ansawdd

12. Mae'r Bil drafft (Adrannau 42-60) yn cynnig dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar gyfer ansawdd ac arolygu ar draws y sector addysg drydyddol. A yw'r trefniadau arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng adeiladu ar y trefniadau presennol mewn addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir, a gweithio tuag at ddull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar draws y sector addysg drydyddol?

✓ **Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Mae Estyn yn croesawu'r parhad o ran dwyn pwerau statudol Estyn o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn eu blaen o ran addysg bellach a hyfforddiant. Un o gryfderau allweddol yr arolygiaeth yw bod gan Estyn arbenigedd a phrofiad mewn arolygu sydd wedi'u hen sefydlu ar draws yr holl sectorau ôl-16, ac eithrio'r rhan fwyaf o'r gwaith a ariennir drwy CCAUC. Mae'r cynigion yn y Bil Drafft yn cydnabod yn llawnach gryfderau'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ar draws y sectorau AHO nag ymgynghoriadau cynharach, ac yn ceisio adeiladu ar y rhain yn hytrach na chreu un ateb sy'n addas i bawb.

Mae geiriad Adran 45 yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Comisiwn gynnal neu drefnu adolygiadau o ansawdd addysg drydyddol. Er bod hyn yn benagored, gallai arwain at sefyllfaoedd lle gallai ceisiadau i gynnal, neu drefnu, adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol neu gwrs penodol mewn addysg drydyddol ddyblygu neu wrthdaro â threfniadau eraill. Byddai egluro hyn ymhellach yn yr adran hon yn lliniaru yn erbyn y risg hon. Gall defnyddio adolygiadau thematig fel y'u cynhelir gan Estyn ar hyn o bryd, yn ychwanegol at adolygiadau sefydliadol/arolygiadau o ddarparwyr unigol, helpu i wella ansawdd ar draws y sectorau ôl-16 mewn perthynas ag agwedd benodol ar ddarpariaeth neu arfer.

Mae Adran 46 yn mynd ati i ddelio ag asesu addysg uwch. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniad o addysg uwch yn ddigon clir yn yr adran hon. Yn benodol, nid yw'r Bil Drafft yn gwahaniaethu rhwng yr hyn y cyfeiriwyd ato'n draddodiadol fel addysg uwch ragnodedig a'r agweddau hynny ar ddarpariaeth uwchlaw lefel 3 nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o ddarpariaeth addysg uwch ragnodedig ac y cyfeirir ati'n gyffredinol fel addysg uwch anragnodedig. Mae enghreifftiau o addysg uwch anragnodedig yn cynnwys llawer o gymwysterau proffesiynol ar lefel 4 ac uwch a gyflwynir mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Ar hyn o bryd, mae trefniadau gwahanol ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn

berthnasol i addysg uwch ragnodedig ac anrhagnodedig. Ar hyn o bryd, ni sydd yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu ar gyfer addysg uwch anrhagnodedig mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith, a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch sy'n ymgymryd ag adolygiadau o addysg uwch ragnodedig. Byddai'n ddefnyddiol i'r Bil Drafft egluro'r gwahaniaethau hyn.

Mae gennym arbenigedd yn barod mewn agweddau ar sicrhau ansawdd addysg uwch, er enghraifft yn ein profiad o arolygu addysg gychwynnol i athrawon a'n harolygiadau thematig o hyfforddiant gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol. Mae hyfforddiant gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol yn agwedd ar addysg uwch y mae'r Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dwyn ein pwerau arolygu ni ymlaen ar ei chyfer. Drwy ein gwaith yn y maes hwn rydym wedi bod yn ddyllanwadol o ran helpu llunio a chefnogi polisi gwaith ieuenctid Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig bod cyfrifoldeb am arolygu neu adolygu prentisiaethau gradd yn cael ei ddiffinio'n glir o fewn y Bil Drafft neu drwy is-ddeddfwriaeth, fel y dynodir yn y Datganiad o Fwriad Polisi (tudalen 19). Mae'r ddeddfwriaeth fel y'i drafftwyd yn gadael y posibilrwydd, yn briodol, i roi gwedd gliriach ar y cyfrifoldebau hyn yn y dyfodol, wrth roi gwedd gliriach ar y cyfeiriad polisi yn y dyfodol ar gyfer prentisiaethau gradd. Gallai'r cyfrifoldeb hwn gynnwys Estyn. Byddai hyn yn sicrhau bod trefniadau arolygu ar gyfer dysgu yn y gwaith yn darparu ymagwedd integredig a chydgyssylltiedig at sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yr holl ddarpariaeth dysgu yn y gwaith ar ba lefel bynnag. Fel rhan o drefniadau o'r fath, gallai Estyn gydweithio â'r corff ansawdd dynodedig ar gyfer addysg uwch, lle gallai arbenigedd corff ansawdd fel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch wrth adolygu cynnwys addysg uwch rhaglenni prentisiaethau gradd gyfuno gyda phrofiad Estyn o arolygu prentisiaethau uwch yn y gweithle.

Rydym yn cydnabod bod y rhaglen prentisiaethau gradd yng Nghymru ar gyfnod peilot, ac, fel rhaglen gymharol newydd, mae angen iddi gael ei gwerthuso'n llawn er mwyn pennu pa sicrwydd ansawdd sydd ei angen. Pan oedd y rhaglen prentisiaethau gradd peilot yn cael ei datblygu gyntaf, gofynnwyd i ni gan CCAUC i gynorthwyo'r darparwyr newydd trwy gyfrannu ein dirnadaeth o arolygu prentisiaethau uwch ac o'n hadroddiad thematig *Prentisiaethau Uwch* (Estyn, 2018) mewn gweithdy yn Ionawr 2019. Yn ddiweddar, rydym wedi cyfrannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd mewn arolygu darpariaeth prentisiaethau uwch i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch wrth iddynt ddatblygu'u fframwaith ar gyfer adolygu ansawdd y prentisiaethau gradd peilot. Mae gennym berthnasol gweithio da yn barod gydag arolygiaethau eraill a chyrff sicrhau ansawdd. Mae ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda CCAUC a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn ein galluogi i rannu gwybodaeth ac arferion, a byddem yn awyddus i barhau i ddatblygu ein cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a chydweithio ar draws y sector addysg drydyddol er mwyn cefnogi dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar gyfer ansawdd.

Mae Adran 49 y Bil Drafft yn dwyn ymlaen y ddarpariaeth o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd, wrth gyhoeddi pob adroddiad arolygu, gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r darparwr addysg neu hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u

defnyddio mewn ffordd sy'n cynnig gwerth am arian. Trwy'r darpariaethau yn adran 41A Deddf Addysg 1997, rydym wedi'i gweld hi'n fuddiol gofyn am gymorth yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol. Hefyd, rydym wedi treialu cydweithredu tebyg gydag un o'n harolygiadau o goleg addysg bellach. Byddai'n gyfle i gynnwys y ddarpariaeth hon ar gyfer y sectorau ôl-16 rydym yn eu harolygu, ac ar gyfer unrhyw arolygiadau ardal y mae'r Comisiwn yn gofyn i Estyn eu cynnal, er y gallai fod goblygiadau ariannol o wneud hyn, yn ymarferol.

Bydd yn hanfodol fod y Comisiwn yn sefydlu cyd-ddealltwriaeth yn gyflym o ba ymddygiadau, diwylliant ac arferion sy'n cefnogi gwella ansawdd yn effeithiol yn y sectorau ôl-16 ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hyrwyddo, er enghraifft o fewn cytundebau deilliannau. Mae ein trefniadau arolygu yn ymdrechu i wneud hyn yn barod. Yn ogystal, bydd yn bwysig dod i gyd-ddealltwriaeth o ba bryd 'y mae sefydliad yn perfformio gryn dipyn yn waeth nag y gallai yn yr holl amgylchiadau y mae'n rhesymol disgwyl iddo berfformio ynddynt, neu'n methu neu'n debygol o fethu rhoi safon addysg neu hyfforddiant dderbyniol' fel trothwy ar gyfer ymyrryd gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru.

Mae Adran 53 yn dwyn ymlaen swyddogaethau ychwanegol y Prif Arolygydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, a allai fod wedi'u pennu yn y rheoliadau, yn cynnwys swyddogaethau mewn cysylltiad â hyfforddi athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr neu bersonau eraill sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant, neu'r hyfforddiant hwnnw. Byddai'n well gennym i'r agwedd hon ar y gwaith gael ei chadarnhau mewn rheoliadau cyn gynted ag y bo modd, gan na wnaed hyn yn dilyn Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Byddai hyn yn gymorth i sicrhau mwy o gysondeb a thrylwyrdeb wrth gefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg bellach a hyfforddiant.

Dylid nodi bod dewis, hyfforddi a diweddarau arolygwyr cymheiriaid Estyn yn rheolaidd yn darparu cyfle pwysig i ymarferwyr ac arweinwyr o bob darparwr ar draws y sector ôl-16 gael mynediad i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n eu galluogi i gyfrannu at sicrhau ansawdd yn gyffredinol a gwella ansawdd yn y sector ac yn eu sefydliadau eu hunain. Byddem yn awyddus i'r agwedd hon ar y gwaith gael ei chydabod mewn unrhyw fframwaith ansawdd a ddatblygir gan y Comisiwn.

Mae Adran 60 yn dweud y bydd y Comisiwn yn darparu unrhyw gyllid i'r Prif Arolygydd y mae'n ystyried ei fod yn briodol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Prif Arolygydd, i'r graddau y mae'r swyddogaethau yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo. Nodwn hefyd fod y Bil Drafft yn cynnig bod Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Prydain 1998) (c. 38) yn cael ei ddiwygio i ddileu cyfrifoldeb oddi wrth Weinidogion Cymru ar gyfer darparu cyllid ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Prif Arolygydd, i'r graddau y mae'r swyddogaethau yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo. Nid ydym yn cefnogi'r un o'r cynigion hyn gan eu bod yn tansellio ein safle fel corff annibynnol y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992, gan y byddent yn dyblygu ac yn cymhlethu cyfrifoldebau cyfrifyddu ac adrodd Estyn gryn dipyn ac yn ddiangen.

Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae'n derbyn ei gyllid drwy Llywodraeth Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae ein cwmpas yn arolygu a darparu cyngor i lunwyr polisi yn un eang ac yn cynnwys yr holl ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a ariennir yng Nghymru, ac eithrio hynny a ariennir ac a reoleiddir ar hyn o bryd gan CCAUC. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth a byddwn yn annibynnol ar y Comisiwn, ac mae hynny'n hanfodol fel y gallwn arolygu ac adrodd ar gyflwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru heb ofn neu ffafrio. Bydd yn bwysig cydnabod gwerth gwaith arolygu a darparu cyngor annibynnol mewn unrhyw fframwaith ansawdd er mwyn cefnogi'r Comisiwn yn ei rôl monitro ansawdd.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod trefniadau arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd yn cynnwys craffu ar ddarpariaeth chweched dosbarth lle caiff ei darparu gan yr ysgolion hyn, a bod llawer o Arolygwyr Ei Mawrhydi sy'n arolygu darpariaeth ôl-16 yn arolygu gweithgareddau cyn-16 hefyd mewn lleoliadau addysg eraill. Mae'n anodd felly, ac yn ddi-fudd, gwahaniaethu rhwng adnoddau a gweithgareddau cyn-16 ac ôl-16 at ddibenion cyllido pan fo cyswllt anorfod rhwng y gweithgareddau ac adnoddau hynny. Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhoi mecanwaith ar waith hefyd i alluogi'r Comisiwn i'n hariannu ni yn uniongyrchol ar gyfer gwaith ychwanegol penodol yn y flwyddyn a allai ei nodi mewn perthynas â'i gylch gwaith.

Ymchwil ac Arloesi

13. A ddylai swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi (Adrannau 95-97) fod yn ehangach na darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yn unig?

✓ **Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r bwriadau a amlinellwyd yn y Bil Drafft i "ddod â'r holl gyllid ymchwil ynghyd a sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, gan gynnwys anghenion y sectorau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol" ac i "sicrhau gweithio agosach rhwng diwydiant, ysgolion, prifysgolion, colegau a'r GIG i godi uchelgais a chynyddu buddsoddiad mewn ymchwil, gan ddatblygu swyddi a thechnolegau'r dyfodol." Gallai fod elfennau cadarnhaol a chanlyniadau anfwriadol yn sgil ehangu cwmpas cyllid ymchwil ac arloesi rydym yn eu hamlinellu yn y paragraffau canlynol.

Wrth ystyried y meini prawf ar gyfer penderfynu pa fath o sefydliad ddylai fod yn gymwys i dderbyn cyllid at ddiben ymchwil ac arloesi, mae'n bwysig ystyried p'un a yw culhau'r cwmpas i ddarparwyr cofrestredig penodedig (cofrestreion uwch) yn creu risg cydweddiad annigonol rhwng y blaenoriaethau ymchwil a chapasiti'r darparwyr hynny sy'n dod o dan y cynigion a blaenoriaethau arloesi busnesau niche neu ranbarthol neu sectorau o'r economi. Awgrymwn y gallai capasiti

sefydliad i gyflawni ymchwil ac arloesi, a sut mae hyn yn cysoni ag anghenion twf economi Cymru, fod yn ystyriaeth fwy addas yn hytrach na'r math o gofrestrai.

Rydym yn cefnogi argymhelliad Reid i greu 'un brand trosfwaol' ar gyfer gweithgareddau arloesi Cymru er mwyn cynyddu 'gwelededd, cydlyniant ac effaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru' (Reid, 2018, tud.5). Dylai hyn gynnwys cymorth ar gyfer arloesi mewn busnes yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Gallai Llywodraeth Cymru fod eisiau ystyried p'un a allai'r ymagwedd arfaethedig gynyddu'r potensial am i fuddiannau strategol sefydliadol orbwysu buddiannau partneriaid potensial, gan arwain at gydweithio annigonol rhwng sefydliadau gwahanol. Gallai hyn arwain at y canlyniad anfwriadol o beidio â denu neu gadw buddsoddiad busnes mewn ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Gallai fod sefydliadau eraill na fyddent yn gymwys i gael cyllid o dan y cynigion presennol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn y cwestiwn p'un a fydd anghenion busnes ac arloesi, ar lefel leol a rhanbarthol yn arbennig, yn cael eu bodloni'n briodol drwy'r cynigion presennol. Mae'n bwysig ystyried p'un a ellir, yn realistig, cyflawni nodau'r Comisiwn i ddod â'r holl gyllid ymchwil ynghyd a sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru, gan gynnwys anghenion sectorau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol. Gallai cynigion presennol gyfyngu twf busnes a chyflogaeth i'r rhanbarthau a'r darparwyr hynny a gwmpesir, gan eithrio partneriaethau eraill sy'n deilwng. Gallai hyn anghymell partneriaethau busnes ac arloesi sydd ag ystod eang o ddarparwyr AHO. Yn y cyd-destun hwn, gallai'r ymagwedd arfaethedig olygu colli cyfle i ddatblygu, yn strategol, gweithlu medrus iawn a sicrhau "enillion cynhyrchiant neu fel arall mynd i'r afael â heriau cymdeithasol ledled Cymru" (Reid, 2018, tud.30).

Rydym yn cytuno y bydd llwyddiant unrhyw ehangu ar gwmpas cyllid ymchwil ac arloesi ymhellach na darparwyr cofrestredig, penodedig addysg drydyddol yn dibynnu ar eglurder diben, diffiniad o llwyddiant a gweithredu effeithlon a sefydlogrwydd polisi (Reid, 2018). O ran llwyddiant ac ansawdd, gallai ehangu cwmpas cyllid ymchwil fynnu meini prawf gwahaniaethol o ran llwyddiant a gwerth am arian sy'n addas i alluoedd sefydliadol ymgeisydd y cyllid a'i bartneriaid dewis. Wrth wneud hynny, mae potensial i waith pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru daro'r cydbwysedd cywir rhwng gwneud penderfyniadau cyllido hyblyg ac ystwyth, bodloni blaenoriaethau strategol a sicrhau gwerth priodol am arian wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Gall fod angen rhoi ystyriaeth i'r modd y bydd pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru yn gweithio gyda gweithgareddau a chyrff ymchwil eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn lleihau'r risg y bydd ffrydiau cyllido yn gorgyffwrdd a sicrhau ymagwedd system gyfan ar gyfer y proffesiwn ôl-16.

I gefnogi hyn, bydd angen ystyried cyfansoddiad pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru yn ofalus, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu deall yn llwyr a chynrychioli buddiannau'r ystod lawn o ymgeiswyr am gyllid.

Gallai'r cynigion presennol ganolbwyntio cyllid ar nifer fach o ddarparwyr a rhanbarthau. Gallai hyn gyfyngu ar ystod y busnesau, staff a dysgwyr a allai elwa

o hyn. Mae ymgysylltu ag ymchwil yn elfen bwysig o ddatblygiad proffesiynol. Mae hyn yn gofyn y cwestiwn a yw'r Comisiwn wir yn gallu "cryfhau'r cyswllt rhwng ymchwil ac addysg" (Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig) ar draws y sector AHO cyfan o dan y cynigion presennol.

Ar hyn o bryd, bydd mentrau fel y Strategaeth Genedlaethol arfaethedig ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) yn rhoi'r cyfle i athrawon ysgol i ddatblygu'n weithwyr proffesiynol addysg wedi'u llywio gan ymchwil ac sy'n ymgysylltu ag ymchwil. Mae clymu ceisiadau am gyllid wrth gofrestreion penodol yn peryglu colli cyfle pellach i ymgysylltu'r gweithlu AHO ehangach nad ydynt yn cael eu cyflogi gan gofrestreion cymwys nac mewn ysgolion wrth elwa o waith arfaethedig y NSERE. Gallai fod o gymorth, felly, i bwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru i ystyried sut bydd yn gweithio gyda gweithgareddau ymchwil/ymholi eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â throsglwyddo gwybodaeth a datblygiad proffesiynol, fel yr NSERE, i sicrhau bod mynediad cyfartal at y cyfryw gyfleoedd i ymgysylltu mewn ymchwil addysgol ledled y sector addysg a hyfforddiant cyfan yng Nghymru.

Prentisiaethau

14. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am fframweithiau prentisiaethau (Adrannau 104-107) a bydd Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi gofynion craidd Manyleb Prentisiaethau Cymru (WAS) (Adrannau 101-103). A ydych chi'n cytuno â'r cydbwysedd hwn o ran pwerau?

✓ Dim barn y naill ffordd na'r llall

Mae Estyn yn cytuno'n fras â'r cydbwysedd pwerau rhwng y Comisiwn a Gweinidogion Cymru. Dylai fframweithiau prentisiaeth adeiladu ar, a datblygu ymhellach y brand prentisiaethau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn gyffredinol ledled Cymru, ac a werthfawrogir yn fawr ymhlith dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant. Mae llawer o ddatblygiadau a llwyddiant wedi cael eu cyflawni gyda phrentisiaethau yng Nghymru o fan cychwyn isel. Dylai datblygiadau adeiladu ar y sylfeini hyn, a rhaid i ni beidio â cholli agweddau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Mae'n hanfodol fod y Comisiwn yn cael ei gynrychioli gan aelodau sydd â'r medrau cywir i wneud penderfyniadau gwybodus ac sydd â digon o ymwybyddiaeth ar draws ystod lawn y sectorau ôl-16. Os nad yw'r gynrychiolaeth yn gywir, bydd y cydbwysedd yn anghymesur ac ni fydd y diwylliant yn iawn o'r cychwyn. Mae Estyn yn credu hefyd y dylai fod cynrychiolaeth ar y byrddau prentisiaeth (WAAB a WESB) i ystyried yr agwedd ansawdd ar y ddarpariaeth a safonau ar gyfer cyflwyno'r fframweithiau gan ddarparwyr hyfforddiant. Gallai gwaith Estyn i fonitro ansawdd cyflwyno prentisiaethau ddarparu adborth defnyddiol.

Byddai'n fuddiol pe bai'r Memorandwm Esboniadol yn dangos yn fwy eglur sut byddai'r Comisiwn yn ymgysylltu â Cymwysterau Cymru i gyflawni ei ddyletswydd wrth fod yn gyfrifol am ansawdd, uniondeb a chadernid fframweithiau prentisiaeth. Mae gwybodaeth gan Estyn ar draws y sectorau ôl-16 y gellid ei defnyddio i gynghori'r Comisiwn ac unrhyw is-grwpiau yn eu gwaith i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer prentisiaid, a'r deilliannau a gyflawnir. Mae'n rhaid i'r Comisiwn achub ar y cyfle a meddu ar uchelgais uchel ar gyfer ei raglenni prentisiaeth, gan gynnwys dealltwriaeth glir o anghenion hyfforddi nawr ac yn y dyfodol, a thechnolegau newydd. Mae angen i'r Comisiwn gael dealltwriaeth glir o sut y bydd yn edrych i'r dyfodol a gwneud yn siŵr bod nifer y fframweithiau sydd ar gael yn gymesur â'r galw ac nid wedi'u cyfyngu i nifer fach er mwyn ei gwneud hi'n hawdd eu rheoli.

15. A yw'r Bil drafft (Rhan 4) yn darparu sbardunau strategol digonol i ddatblygu a chynnal uniondeb prentisiaethau yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion diwydiant?

✓ **Dim barn y naill ffordd na'r llall**

Mae'r prif sbardunwyr strategol yn amrywiol ac yn briodol yn gyffredinol. Bydd angen i'r Comisiwn fod â staff sydd â dealltwriaeth glir o'r agweddau strategol a gweithredol ar raglenni prentisiaeth. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i brentisiaethau gael eu cwblhau yng Nghymru, lle mae dysgwyr yn cael eu cyflogi o ddechrau eu hyfforddiant ac yn dilyn fframwaith cymeradwy. Wrth bennu sectorau galwedigaethol, mae'r rhaid i'r wybodaeth a gyflwynir fod yn glir a rhaid ei chefnogi gyda gwybodaeth briodol arall. Er enghraifft, mae'n bwysig cynnal llwybrau dilyniant o lefel 2 drwodd i brentisiaethau gradd. Pe bai nifer yr ymgeiswyr lefel 2 wedi'i chyfyngu, byddai'n atal nifer fawr o ddysgwyr rhag mynd i mewn i hyfforddiant a byddai'n mynd yn fater o anghydraddoldeb. Byddai'n ddoeth ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur a chyfyngu hyfforddiant i nifer y swyddi y tybir eu bod ar gael. Mae'n rhaid i brentisiaethau gael eu cynnal mewn ystod mor eang â phosibl o feysydd galwedigaethol er mwyn gwneud yn siŵr bod anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn cael eu bodloni'n llawn. Dylid ystyried anghenion y nifer fawr o ficrofusnesau a mentrau bach a chanolig (BBaCh) sy'n cyfrannu gymaint at economi Cymru.

Dylid adolygu safonau prentisiaethau a'u diweddarau ar gyfnodau priodol er mwyn sicrhau eu bod yn gyffredol ac yn adlewyrchu arfer diwydiant. Dylai cynnwys fframweithiau fod yn glir, gyda llwybrau dilyniant pendant at lefelau hyfforddiant uwch. Mae Estyn o'r farn ei bod yn angenrheidiol rhoi cyhoeddusrwydd i fuddion prentisiaethau, a'u rhannu, yn fwy eang, yn enwedig gydag ysgolion a rhieni. Trwy waith Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn, mae angen sefydlu prentisiaethau fel opsiwn cywerth ac ymarferol i astudio Safon uwch a mynychu'r brifysgol yn amser llawn. Mae cyfle gan y Comisiwn hefyd i hyrwyddo amrywiaeth a chydaddoldeb gyda ffocws ar hyrwyddo prentisiaethau i fenywod a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Wrth baratoi, datblygu a chyhoeddi fframweithiau, mae'n rhaid i'r Comisiwn wneud yn siŵr bod gan y rheiny sy'n datblygu'r fframweithiau ddealltwriaeth glir ynghylch

anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod cynnwys y fframwaith yn bodloni anghenion y diwydiant a'i fod yn addas i'r diben am y cyfnod y bydd yn ddilys. Er bod ystod bresennol y fframweithiau yn sylweddol, a phrin y defnyddir nifer ohonynt, mae'n bwysig peidio â lleihau'r nifer i lefel mor isel fel nad yw anghenion hyfforddi cyflogwyr a dysgwyr yn cael eu bodloni. Mae'r datblygiadau hyn yn rhoi'r cyfle i 'gysoni' fframweithiau er mwyn sicrhau eu bod mor gyfartal ag y gallant fod o ran maint y gwaith a fynnir i'w cwblhau, ac atal y farn o feddwl am rai llwybrau fel rhai sy'n haws nag eraill. Er ein bod yn cefnogi'r farn y dylai dysgwyr, lle bo modd, gwblhau hyfforddiant uwchlaw lefel 2, mae'n bwysig bod prentisiaethau yn parhau ar lefel 2. Byddai hyn yn galluogi dysgwyr ar raglenni math hyfforddeiaeth i gael llwybrau dilyniant clir heb symud yn syth i lefel 3 a gofynion cwblhau gwaith ar y lefel hon. Hefyd, byddai'n golygu y bydd anghenion y dysgwyr a'r cyflogwyr hynny sydd eisiau hyfforddiant ar lefel 2 yn cael eu bodloni. Mewn llawer o achosion, buan iawn y daw dysgwyr yn aelodau dibynadwy o staff eu cyflogwr ac felly mae hyfforddiant lefel 2 yn cael ei werthfawrogi a'i barchu gan y rhai sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i'r gofrestr prentisiaethau adlewyrchu'r rhaglenni 'traddodiadol' a chraidd, ond bod yn ddigon hyblyg hefyd i ddatblygu fframweithiau mewn diwydiannau 'newydd' pan nodir bod galw amlwg. Yn hanesyddol, mae amser arwain hir wedi bod yn gysylltiedig â dylunio a lansio unrhyw fframwaith newydd, gan arwain at ddiffyg ymgysylltiad â dysgwyr neu gyflogwyr a cholli cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'n rhaid i brentisiaeth Cymru fod yn gludadwy, o ansawdd uchel ac yn gywerth o leiaf â gweddill y Deyrnas Unedig. Felly, mae'n rhaid i brentisiaeth Cymru fod y gorau sydd ar gael, sy'n cymharu â'r rheiny a welir fel rhai sy'n flaenllaw yn y byd ac nid yn fodel prentisiaeth arall yn unig.

Mae angen i'r berthynas rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau gael ei hystyried hefyd er mwyn sicrhau bod ysgogiadau strategol gwahanol i hybu cyflogaeth a thwf economaidd yn gweithio mewn cytgor.

Ystyriaeth bwysig arall fydd y deilliannau o werthusiad Llywodraeth Cymru o'r rhaglen prentisiaethau gradd peilot a sut i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau rhaglenni o'r fath yn y dyfodol yn cynnwys adolygiad cydlynus o'u hansawdd. Fel y nodom yng nghwestiwn 12, gallai is-ddeddfwriaeth roi gwedd gliriach ar gylch gwaith y Prif Arolygydd i gynnwys cyfrifoldeb am ddull mwy cydgysylltiedig ac integredig o adolygu ansawdd prentisiaethau gradd, ochr yn ochr â'r corff ansawdd dynodedig ar gyfer addysg uwch.

Mae'r pandemig presennol wedi newid addysg a hyfforddiant, ac wedi effeithio ar nifer o brentisiaethau sy'n cael eu hariannu, a gallu cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i gyflawni prentisiaethau newydd a gynlluniwyd mewn rhai diwydiannau. Trwy feddwl yn arloesol ac edrych i'r dyfodol, mae cyfle gan y Comisiwn i adnewyddu'r cynnig darpariaeth a datblygu ffyrdd o weithio sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer y byd gwaith yn fwy effeithiol.

Anghenion yr economi a chyflogwyr

16. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i ystyried "gofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, proffesiynau a chyflogwyr eraill o ran addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi" (Adran 2(1)(b)). Yn eich barn chi, a yw'r ddyletswydd hon yn ddigonol ac yn cael effaith ystyrlon fel ag y mae nawr?

✓ Dim barn y naill ffordd na'r llall

Mae Estyn yn cydnabod yr angen i'r Comisiwn ystyried gofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, y proffesiynau a chyflogwyr eraill.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r angen i brentisiaethau fod yn fwy ymatebol, ond credwn hefyd fod angen i addysg bellach ac addysg uwch fod yn fwy ystwyth i addasu'u darpariaeth i ddiwallu anghenion yr economi a chyflogwyr. Dyma ble gall y Comisiwn chwarae rhan efallai yn ei berthynas gyda'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol. Tra bod y rhan fwyaf o golegau addysg bellach yn gweithredu ac yn cyflwyno mewn cyd-destun rhanbarthol yn bennaf, mae'r patrwm cyflwyno ar gyfer llawer o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn fwy gwasgarog ac mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y gall y darparwyr hyn ymgysylltu'n llawn â'r holl bartneriaethau sgiliau rhanbarthol perthnasol. O ran darpariaeth dysgu yn y gwaith, mae ychydig iawn o ddarparwyr yn teimlo y byddai'n fwy priodol i'r prif amcanion lefel uwch gael eu pennu'n genedlaethol gyda phartneriaethau sgiliau rhanbarthol yn ymgorffori targedau recriwtio. Byddai hyn yn golygu y gallai'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol a darparwyr hyfforddiant chwarae rhan yn monitro'r cyflwyno yn unol â'r rhain.

Un maes nad yw'n cael ei fynegi'n ddigon clir yn y Memorandwm Dealltwriaeth yw'r angen am i ddysgu a datblygiad proffesiynol staff mewn darparwyr addysg drydyddol fod wedi'u cysylltu'n gryf â gofynion rhesymol diwydiant, masnach a chyflogwyr.

Cyllid

Canolbwyntio ar ddeilliannau:

17. Mae'r Bil drafft (adran 79) yn darparu ar gyfer dull ariannu sy'n seiliedig ar Gytundebau Deilliannau. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn, drwy ei benderfyniadau cyllido a thrafodaethau â chyrff a gyllidir, gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil. Gweler y Memorandwm Esboniadol am fanylion y bwriad polisi sy'n sail i'r cytundebau deilliannau (paragraffau 3.56 - 3.58 a 3.145 - 3.147). A yw'r dull hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng

blaenoriaethau cyllid strategol ac anghenion darparwyr dysgu unigol?

✓ Ydy

Mae Estyn yn croesawu cadarnhad y bydd cytundebau deilliannau yn gynnyrch cyd-gynhyrchu drwy negodi rhwng y Comisiwn a chyrrff a ariennir. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bennu 'ymrwymadau perfformiad' er mwyn gwneud yn siŵr bod y rhain yn rhesymol, yn realistig ac nad ydynt yn rhy gyfyngol. Mae cyfryngau fel cytundebau deilliannau a meini prawf perfformiad cysylltiedig yn debygol o ysgogi ymddygiadau o fewn cyrrff cyllido ac mae'n bwysig ystyried ac osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl trefniadau o'r fath. Er mwyn annog a chefnogi cydweithio rhwng darparwyr o fewn ac ar draws sectorau ôl-16, dylid rhoi ystyriaeth i ymgorffori gofynion neu gymhellion i ddefnyddio dulliau cydweithredol o gynllunio darpariaeth yn strategol mewn cytundebau deilliannau.

Rydym hefyd yn croesawu cydnabod nad oes unrhyw un ateb sy'n addas i bawb wrth gynllunio a chyllido darparwyr ôl-16, yn ogystal â'r bwriad i barhau i weithredu systemau cynllunio a chyllido hyblyg ar draws y sector trydyddol. Mae angen mwy o eglurder ar ffocws a chwmpas cytundebau deilliannau. Er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol egluro p'un a fyddai un cytundeb deilliannau i bob sefydliad neu p'un a fydd cytundebau deilliannau niferus yn cael eu rhoi i sefydliad efallai, gyda phob un yn canolbwyntio ar fath gwahanol o ddarpariaeth fel addysg bellach, dysgu yn y gwaith ac ati. Hefyd, a fyddai un cytundeb deilliannau ar gyfer pob awdurdod lleol mewn perthynas â'u darpariaeth chweched dosbarth? Byddai'n ddefnyddiol egluro hyn o ran cyllid awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthiadau chwech ac ar gyfer cyllid dysgu oedolion yn y gymuned, beth sydd ei angen i gydymffurfio â chynlluniau gwarchod dysgwyr a'r cod ymgysylltu â dysgwyr. Cyfeiriwn yn ôl at ein hymateb i Gwestiwn 2 a Chwestiwn 3 ynglŷn â phwysigrwydd y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ystod eang o randdeiliaid wrth ymgynghori ar gynlluniau gwarchod dysgwyr a'r cod ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys safbwynt dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion ac oedolion sy'n ddysgwyr mewn addysg yn y gymuned. Byddai cytundebau deilliannau yn ymddangos yn ffordd synhwyrol ymlaen, ond dylid dysgu gwersi o drefniadau blaenorol. Mae yna botensial y gallai system o 'dalun yn ôl canlyniadau' rwystro cenhadaeth addysgol ehangach darparwyr.

Mae darparwyr yn tueddu bod yn reddfod gystadleuol yn eu meddwl, ac yn ddealladwy cânt eu gyrru gan anghenion cyllid. Fodd bynnag, mae darparwyr yn wynebu gwahaniaethau lleol a rhanbarthol sylweddol o ran y niferoedd dysgwyr fydd yn cael eu derbyn o bosibl, sy'n golygu nad ydynt yn gyfartal o ran eu rhagolygon cyllid. Mae angen i gytundebau deilliannau sicrhau felly fod llwybrau dysgu a dilyniant yn cael eu cefnogi'n briodol a'u gwarchod mewn amgylchiadau lle byddai hunan-fuddiannau cul darparwyr yn debygol o gyfyngu ar ddarpariaeth, er bod angen clir yn lleol, rhanbarthol neu'n genedlaethol am ddarpariaeth o'r fath.

A oes cyfle yn y Bil Drafft i amlinellu'r hawl i ddysgu gydol oes fel y nododd y Prif Weinidog? A yw cyllido addysg bellach ar gyfer cyfleusterau rhesymol o 19 oed

ymlaen yn darparu digon o gyfle i gefnogi'r uchelgais i ddinasyddion yng Nghymru gael mynediad i addysg neu hyfforddiant a ariennir i lefel gyfwerth â lefel 3?

Mae'n rhaid i gytundebau deilliannau adlewyrchu anghenion Cymru a dinasyddion yn y dyfodol, ond i fod yn ddigon hyblyg i annog hyblygrwydd ac ymatebolrwydd ymhlith darparwyr. Mae'n anodd i ddarparwyr symud oddi wrth gynigion cwricwlwm 'traddodiadol' oherwydd yr angen i hyfforddi a 'diweddarau' athrawon a hyfforddwyr ar gyfer anghenion y dyfodol. Rhaid cydnabod yr angen i wneud hyn, cynllunio ar ei gyfer a'i adlewyrchu yn nhargedau'r cytundebau deilliannau.

Hefyd, dylai cytundebau deilliannau adlewyrchu'r angen am dargedau addysg gyffredinol yn ogystal â thargedau hyfforddiant penodol. Er enghraifft, gallai cytundebau gwasanaeth gynnwys cyflwyno elfen o addysg gymdeithasol, ariannol a 'dinasyddiaeth', neu gallai fynnu elfen o drawsgroesi rhwng hyfforddiant ymarferol ac addysg ehangach a'r celfyddydau.

Dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys darpariaethau penodol o fewn cytundebau deilliannau sy'n gwneud yn siŵr bod trefniadau ar gyfer is-gontractio a darpariaeth freiniol wedi'u seilio ar anghenion tymor canolig a thymor hir cadarn yn hytrach na chael eu gyrru gan faterion perfformiad yn ymwneud â chyllid tymor byr. Er enghraifft, dylid pennu mewn cytundebau deilliannau fod rhaid cwblhau archwiliadau diwydrwydd dyladwy a chael cymeradwyaeth gan y corff llywodraethu priodol ynghyd â hysbysiad i'r Comisiwn, cyn dechrau ar unrhyw ddarpariaeth trydydd parti gydag unrhyw sefydliadau partner newydd. Hefyd, dylai cytundebau deilliannau rwystro trefniadau isgontractio ymlaen neu eilaidd gan sefydliadau partner cymeradwy. Bydd y gofynion hyn yn helpu atal defnydd amhriodol o drefniadau breinio ac isgontractio a gwarchod yn erbyn camddefnyddio arian cyhoeddus.

Gallai hyblygrwydd i ymdopi â graddfa gyfyngedig o dan-gyflenwi neu orgyflenwi gyda threfniadau treiglo neu ddwyn ymlaen helpu i osgoi meddwl tymor byr. Gallai fod yn fuddiol hefyd roi ystyriaeth i ganiatáu trosglwyddiadau cyllid wedi'u cymeradwyo rhwng agweddau penodol ar ddarpariaeth lle gellir dangos y byddai'n bodloni anghenion lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Gallai hyn helpu annog darparwyr i gyfeirio dysgwyr tuag at lwybrau sy'n bodloni'u hanghenion nhw yn hytrach na'u cyfeirio'n bennaf at lwybrau lle mae cyllid ar gael ar hyn o bryd. Byddai hefyd yn osgoi sefyllfaoedd lle gallai darparwyr gael eu cosbi am dan-recriwtio ar un rhaglen wrth beidio â chael cyllid am unrhyw or-recriwtio ar raglen arall, hyd yn oes os ydynt yn yr un maes darpariaeth.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

18. Mae goblygiadau ariannol y Bil Drafft Bill wedi'u hamlinellu yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol Drafft. Yn eich barn chi, a oes angen i'n manylion ni o ran costau ystyried unrhyw beth arall?

Yn absenoldeb gwybodaeth fanwl am y manylion penodol yn ymwneud â chostau a manteision unigol, rydym yn teimlo y byddai'n amhriodol gwneud sylwadau ar yr eitemau cost a budd penodol a nodir yn rhan 2 y Memorandwm Esboniadol Drafft. Fodd bynnag, hoffem gynnig sylwadau ac arsylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r manylion o ran costau a gynhwysir yn y ddogfen.

- Nodwn fod y costau a amlinellwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol (adrannau 6, 8 ac Atodiad 6) y Memorandwm Esboniadol wedi'u datblygu i gyd-fynd â chyflwyno'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn 2020. Fel y mae'r ddogfen yn nodi, o ganlyniad i COVID-19, oedwyd cyflwyno'r Bil ac mae Bil drafft wedi'i gyhoeddi i ymgynghori arno. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r costau disgwylid fel y'u hamcangyfrifwyd ar gyfer cyflwyno o 2020 ymlaen. Mae llawer wedi newid ers i'r amcangyfrifon gwreiddiol hyn gael eu llunio, gan gynnwys y tarfu digynsail a pharhaus ar weithgareddau hanfodol yn sgil y pandemig COVID-19 a chyd-destun newidiol trefniadau Brexit, gan gynnwys colli cyllid Ewropeaidd o ganlyniad i hynny. Bydd amcangyfrif trylwyr a chadarn wedi'i ddiweddarau o'r holl gostau a manteision yn hanfodol felly fel rhan o unrhyw werthusiad terfynol o opsiynau strategol.
- Nid yw'r goblygiadau ariannol fel y'u hamlinellwyd yn y Bil Drafft a'r Memorandwm Esboniadol yn ceisio mynd i'r afael â mater hirsefydlog annhegwch canfyddedig lefelau cyllido gwahaniaethol y pen ar lefel darparwyr unigol rhwng dosbarthiadau chweched mewn ysgolion unigol (drwy lwybr ariannu'u hawdurdod lleol) a cholegau addysg bellach. Mae colegau'n derbyn eu cyllid yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn unol â'u dyfarniadau grant blynyddol, fesul blwyddyn academiaidd; caiff cyllid i ysgolion ei ddyrannu yn y lle cyntaf i awdurdodau lleol bob blwyddyn ariannol, ac maent hwythau wedyn yn ei ddirprwyo i ysgolion. Yn benodol, ceir amrywioldeb sylweddol yn aml ym maint y cyllid y pen ar gyfer dysgwyr y chweched dosbarth y mae awdurdodau lleol gwahanol yn ei gynnwys mewn cyllidebau ysgolion unigol fel rhan o'u prosesau dyrannu cyllideb ysgolion. Dylid rhoi ystyriaeth i adolygu mecanweithiau cyllido o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn deg a chynaliadwy.
- O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w gweithrediadau ac arferion gweithio. Er ei bod yn debygol mai newidiadau dros dro yw'r rhain, mae'n dod yn gynyddol amlwg fod llawer o sefydliadau yn ailystyried y ffordd y bwriadant weithredu y tu hwnt i gyfnod y pandemig. Er enghraifft, mae llawer o sefydliadau yn symud tuag at wneud mwy o ddefnydd o drefniadau gweithio gartref a modelau cyflwyno ar-lein a chyfunol ar gyfer y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar gostau llafur ac ar wariant cyfalaf a gofynion gwariant yn gysylltiedig ag adeiladau. Hefyd, mae'r amgylchedd newidiol a'r effaith ganlyniadol ar yr economi wedi effeithio ar y gyfradd chwyddiant, ac mae'n debygol felly y bydd angen i rai o'r rhagdybiaethau pwysig y seiliwyd y costau a'r manteision cychwynnol hyn arnynt gael eu diweddarau'n ofalus hefyd.
- Mae effaith y cyd-destun newidiol a amlinellwyd uchod yn debygol hefyd o wneud rhagweld ariannol ac amcangyfrif costau a manteision hyd yn oed yn fwy heriol na'r arfer. Byddai'n ddoeth, felly, ymgymryd â gwaith dadansoddi sensitifrwydd ariannol ychwanegol i danategu prosesau gwerthuso a

phenderfynu. Hyd yn oed mewn amseroedd mwy sefydlog a rhagweladwy, mae tuedd gyffredinol i gostau a graddfeydd amser fynd y tu hwnt i amcangyfrifon gwreiddiol, ac i fuddion disgwylidig beidio â chael ei gwireddu'n llawn pan fydd gweithredu'n mynd rhagddo. Er enghraifft, mae nifer o feysydd gwasanaeth yn y sector cyhoeddus wedi gweld oedi sylweddol iawn a chynnydd mawr mewn costau yn gysylltiedig â datblygiadau TG graddfa fawr sydd wedi effeithio'n sylweddol ar gostau a pherfformiad cyffredinol. O ystyried graddfa'r newidiadau sy'n cael eu hystyried o ganlyniad i'r Bil Drafft hwn, mae'n hanfodol fod amcangyfrifon wedi'u diweddarau ac arfarniadau o opsiynau yn cael eu cyflawni mor gadarn ag y bo modd ac mai dim ond ar ôl gwerthuso'r rhain yn llawn y bydd gweithredu'n mynd rhagddo.

19. Byddem yn hoffi i chi ystyried y costau a'r manteision posibl i gyrff, sefydliadau neu unigolion penodol o ganlyniad i'r Bil drafft. Nodwch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth yma:

Fel y dywedwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 18, yn absenoldeb gwybodaeth fanwl am y manylion penodol yn ymwneud â chostau a manteision unigol, rydym yn teimlo y byddai'n amhriodol gwneud sylwadau ar yr eitemau cost a budd penodol a nodir yn rhan 2 y Memorandwm Esboniadol Drafft. Fodd bynnag, hoffem gynnig sylwadau ac arsylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r manylion o ran costau a gynhwysir yn y ddogfen.

- Bydd yr holl gyrff, sefydliadau ac unigolion penodol yr effeithir arnynt gan y Bil Drafft yn cael eu heffeithio hefyd gan y pandemig diweddar a pharhaus a'i effaith ar weithrediadau. Mae unrhyw newid mawr i'r amgylchedd deddfwriaethol a gweithredol sy'n effeithio ar y rhanddeiliaid hyn yn debygol o ychwanegu at yr heriau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal ag effeithiau ar gostau a manteision penodol posibl. Byddai'n ddefnyddiol felly hefyd ailystyried yn llawn effeithiau personol, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y newidiadau arfaethedig ochr yn ochr ag unrhyw gostau a manteision ariannol fel rhan o unrhyw ymarferiad arfarnu opsiynau diweddaedig.
- Gweler hefyd yr ymateb i Gwestiwn 18 uchod ar gyfer ffactorau cyffredinol ychwanegol sydd i'w hystyried.
- Mae'r sail resymegol gyffredinol dros y bwriad i greu'r Comisiwn yn amlygu creu un sector ôl-16 integredig fel deiliant allweddol. Mae'r newid strwythurol cyffredinol hwn ar gyfer y sector yn golygu newid sylweddol i'r amgylchedd gweithredu sy'n effeithio ar lawer o sefydliadau. Mae'n rhesymol felly i ddisgwyl y bydd llawer o sefydliadau yn ystyried eu hopsiynau strategol eu hunain sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn yn eu hamgylchedd allanol. Er enghraifft, gallai hyn sbarduno trefniadau cydweithio newydd, uno sefydliadau neu gaffaeliadau. Gallai hyn yn ei dro fynnu ystyried ceisiadau am gymorth ychwanegol i'r sefydliadau hyn ymgymryd ag astudiaethau dichonoldeb ac arfarniadau o opsiynau, yn

ogystal ag arwain at gostau pontio untro ychwanegol i sefydliadau sy'n bwrw ymlaen ag unrhyw ad-drefnu.

O ran effaith y Bil Drafft ar gostau a manteision posibl i Estyn, dymunwn ailddatgan ein pryderon ynglŷn â'r cynnig ar gyfer ariannu gweithgareddau ôl-16 yr arolygiaeth drwy'r Comisiwn yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru fel o dan y trefniadau presennol. Byddem yn awgrymu bod ein cyllideb graidd yn parhau i ddod gan Lywodraeth Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 er mwyn ein galluogi i gyflawni ystod lawn ein cyfrifoldebau statudol. Nid ydym yn cefnogi'r cynnig hwn am ei fod yn tanseilio ein safle fel corff annibynnol y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992, gan y byddai'n dyblygu ac yn cymhlethu cyfrifoldebau cyfrifyddu ac adrodd Estyn gryn dipyn ac yn ddiangen. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth a byddwn yn annibynnol ar y Comisiwn, ac mae hynny'n hanfodol fel y gallwn arolygu ac adrodd ar gyflwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru heb ofn neu ffafrio. Bydd yn bwysig cydnabod gwerth gwaith arolygu a darparu cyngor annibynnol mewn unrhyw fframwaith ansawdd er mwyn cefnogi'r Comisiwn yn ei rôl monitro ansawdd.

Byddem yn croesawu rhoi mecanwaith yn ei le hefyd i alluogi'r Comisiwn i'n hariannu ni'n uniongyrchol yn ychwanegol at ein cyllideb graidd am waith ychwanegol y gallent fynnu gennym mewn perthynas â'u cylch gwaith. Yn ymarferol, mae cynllunio a rheoli adnoddau a chyfrifyddu yn haws o lawer pan fydd ein cyllideb graidd yn dod o un ffynhonnell (Llywodraeth Cymru). Mae ein harolygwyr yn gweithio ar draws addysg orfodol ac ôl-orfodol, sy'n ei gwneud hi'n anos neilltuo cyllideb yn fanwl ar draws ffrydiau cyllido gwahanol. Er enghraifft, mae trefniadau arolygu ar gyfer ysgolion uwchradd yn cynnwys craffu ar ddarpariaeth chweched dosbarth lle caiff ei darparu gan yr ysgolion hyn, ac mae llawer o Arolygwyr Ei Mawrhydi sy'n arolygu darpariaeth ôl-16 yn arolygu gweithgareddau cyn-16 hefyd mewn lleoliadau addysg eraill. Mae'n anodd felly, ac yn ddi-fudd, gwahaniaethu rhwng adnoddau a gweithgareddau cyn-16 ac ôl-16 at ddibenion cyllido pan fo cyswllt anorfod rhwng y gweithgareddau ac adnoddau hynny.

Fodd bynnag, byddem yn croesawu cael mecanwaith yn ei le hefyd i alluogi'r Comisiwn i'n hariannu ni'n uniongyrchol ar gyfer gwaith ychwanegol penodol yn y flwyddyn y gallai ei nodi mewn perthynas â'i gylch gwaith.

Normal Newydd

20. A ydych chi'n meddwl bod y pandemig yn codi materion penodol ar gyfer unrhyw beth a gynigir yn y Bil drafft?

✓ Ydyn

Nid yw'r pandemig yn effeithio ar sylwedd y Bil Drafft. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar ba mor hir y bydd cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn para, fe allai ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Comisiwn yn ymgynghori ar ei weithgareddau amrywiol. Yn benodol, gallai grwpiau â mynediad cyfyngedig at y rhynggrwyd gael anhawster o ran ymgysylltu ag ymgynghoriadau neu gyfarfod mewn grwpiau cynrychioliadol.

Yn ogystal, bydd angen i'r Comisiwn addasu i'r patrymau newydd o gyflwyno, dysgu, rhyngweithio'n gymdeithasol, darparu lle mewn adeiladau ac arferion gweithio a fydd yn datblygu o ganlyniad i'r pandemig. Bydd angen i'r Comisiwn ystyried effaith llai o opsiynau ar gyfer teithio ar y dewis ddarparwr a allai fod ar gael i ddysgwyr, a sut y gallai cydweithio rhwng darparwyr liniaru hyn o bosibl.

Nid oes unrhyw sôn yn y Bil Drafft am rôl bosibl y Comisiwn mewn cynllunio wrth gefn a chynllunio at argyfwng pe bai senario yn y dyfodol fel pandemig y Coronafeirws. Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai gwedd gliriach yn cael ei rhoi i rôl y Comisiwn mewn perthynas â:

- sut mae'r berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru wedi'i llunio fel ei bod yn glir pwy sydd â pha rôl pe bai argyfwng yn y dyfodol
- cynllunio at argyfwng, cydlynu a chyllido
- datblygu seilwaith
- rhannu gwybodaeth
- cyd-rannu gwybodaeth ar draws y sectorau ôl-16
- cymorth logistaidd
- rhannu arfer yn effeithiol

Diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

21. Mae'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol i greu corff newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. A oes unrhyw ddulliau eraill y gellir eu defnyddio i gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen i wireddu nodau agenda diwygio AHO.

✓ Oes

Ni fydd creu'r corff newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ynddo'i hun, yn sefydlu'r newid diwylliannol sydd ei angen i gyflawni nodau'r agenda diwygio AHO. Mae nodau bwriadedig agenda diwygio AHO, fel y'u hamlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru i 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig' yn 2017 yn pwysleisio pwysigrwydd a gwerth datblygu sector addysg a hyfforddiant ôl-16 unedig yng Nghymru. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio, cyflwyno a goruchwyllo'r

sectorau ôl-16 yn ddarniog iawn ar hyn o bryd a bydd datblygu un sector unedig yn mynnu newid diwylliannol mawr ar bob lefel dros gyfnod amser sylweddol.

Er mwyn cyflawni nodau'r agenda diwygio AHO, bydd angen amrywiaeth o ddulliau ychwanegol, yn cynnwys:

- Newidiadau polisi pellach i ddiwygio trefniadau presennol yn yr elfennau amrywiol o'r sector ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch.
- Ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi wrth ddatblygu trefniadau comisiynu arfaethedig, ac yn arbennig, wrth lunio manylebau ar gyfer cytundebau deilliannau, i annog camau ac ymddygiadau a ddymunir ac osgoi canlyniadau anfwriadol trefniadau o'r fath.
- Dylai trefniadau llywodraethu ar gyfer sefydliadau gael eu diwygio, lle bo'n briodol, i sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol ar draws y sector ôl-16 ac anghymell mynd ar drywydd hunanfuddiant sefydliadol cul.
- Bydd yn arbennig o bwysig ymestyn cyrhaeddiad a mynychder gweithio ar y cyd, lle bynnag y bo modd, os yw'r newidiadau diwylliannol gofynnol i'w cyflawni a'u cynnal.
- Byddai comisiynu arolygiadau ardal 16-19 yn helpu darparu ffocws clir ar fynnu a gwerthuso cynllunio ar y cyd a chydweithio ar draws y ddarpariaeth ôl-16. Er enghraifft, byddai'r arolygiadau hyn yn helpu nodi ardaloedd yng Nghymru lle mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda er budd dysgwyr, a lle mae angen gwelliannau.
- Dylai cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu uniongyrchol rhwng y Comisiwn ac ysgolion yn ogystal â gydag awdurdodau lleol gael eu hystyried fel ffordd o annog newid diwylliannol trwy ddeialog broffesiynol agored a chyflawni mwy o gyd-ddealltwriaeth o ran cyfeiriad polisi a'r effaith ar ddysgwyr a darparwyr.
- Gallai ymagweddau mwy cydweithredol at ddysgu proffesiynol ar draws y gweithlu AHO helpu sicrhau mwy o gyd-ddealltwriaeth, parch cydradd a chydweithio.

22. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Cyfeiriad polisi 16-19

Rydym yn croesawu'r ffocws yn y ddogfen weledigaeth ar ddatblygu goruchwyliaeth strategol hirdymor a chydweddu ag anghenion addysg a hyfforddiant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a gwella cydweithio rhwng darparwyr. Yn gyffredinol, serch hynny, nid oes digon o ffocws yn y Bil drafft a dogfennau cysylltiedig ar y cyfeiriad polisi ar gyfer y cwricwlwm 16-19. Nid yw'n glir ychwaith beth yw rolau Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn wrth bennu'r polisi hwn. Nid yw'r cyfeiriad polisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer y cwricwlwm 16-19 ers y gwaith ar y Llwybrau Dysgu 14-19. Mae ein darnau diweddar o waith thematig yn ymwneud â chydweithio rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach (nid yw wedi'i gyhoeddi eto) a'n hadroddiadau ar Safon Uwch yn canfod diffyg cydweithio

parhaus rhwng darparwyr i sicrhau'r ystod orau bosibl o opsiynau ôl-16 ar gyfer dysgwyr. Nid yw'n glir ar yr adeg hon sut bydd gwaith y Comisiwn yn gwella'r cydweithio hwn ac yn sicrhau set gydlynus o lwybrau dysgu sy'n sicrhau rhyngwyneb hwylus rhwng addysg a hyfforddiant gorfodol ac ôl-orfodol.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Ychydig iawn o gyfeiriadau a geir at y modd y bydd y Comisiwn yn ymgysylltu â goblygiadau'r ddeddf hon ar y cyfrifoldebau ar gyfer addysg bellach ac awdurdodau lleol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion cymhleth.

Ymchwil

Bydd yr NSERE arfaethedig yn cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru i ddarparu strategaeth gydlynus ar gyfer ymchwil ac ymholi yn gysylltiedig â 'blaenoriaethau cenedlaethol' yng Nghenhadaeth Genedlaethol 2, ond beth fydd y berthynas rhwng y gwaith hwn sy'n cael ei ariannu a'r Comisiwn? Ac a fyddai hyn yn cael ei ariannu drwy'r Comisiwn yn y dyfodol?

Rhestr cyfeiriadau

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2018) *Tuag at Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg*. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. [Ar-lein]. Ar gael o:

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/2015colegcymraeg/dogfennau/s-2210/tuagatcymraeg2050.pdf> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Cyngor y Gweithlu Addysg (2020) *Ystadegau blynyddol y Gweithlu Addysg i Gymru 2020*. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents/research-and-statistics/annual-statistics-digest/762-ewc-statistics-digest-2017.html> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Estyn (2017) *Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Bilingual%2520Teaching%2520in%2520FE%2520cy_0.pdf [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Estyn (2018) *Prentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Higher%2520apprenticeships%2520in%2520work-based%2520learning%2520%2520cy.pdf> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Estyn (2019) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-19*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-07/Annual_Report_2018_2019_cy%20%281%29.pdf [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Prydain Fawr (1993) *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (1998) *Deddf Llywodraeth Cymru 1998*. Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (2000) *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000*. Llundain: Y Llyfrfa.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011) *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013) *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Reid, G. (2018) *Review of Government Funded Research and Innovation in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/review-of-government-funded-research-and-innovation-reid-review.pdf> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2015) *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg: Rhaglen waith 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/ATISN%2013144doc15.pdf>

[Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf> [Darllenwyd 2 Rhagfyr 2020]